

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

Cofnodion Cyfarfod y Fforwm Derbyn a gynhaliwyd yn y Swyddfeydd Dinesig Ddydd Iau 10 Mawrth 2016

Cynrychiolwyr yr ALI

Mr R Davies Rheolwr y Grŵp, Busnes, Strategaeth a Pherfformiad
Cyng. Huw David Aelod Cabinet, Plant a Phobl Ifanc
Mrs M Treharne Swyddog Cynnal Ysgolion, Cymorth i Ddysgwyr a Phlant

Cynrychiolwyr Ysgolion

Mr J Tarran Pennaeth, Ysgol Gynradd Eglwys Cymru, Archddiacon John Lewis
Mrs A Keller Pennaeth, Ysgol Uwchradd Gatholig, Archesgob McGrath

Cynrychiolwyr Llywodraethwyr

ALI Arall

Mrs Claire Kristy, RCT

Ysgrifenyddes y Fforwm

Ms M Jones

1. Croeso

Croesawodd y Cadeirydd Mrs C Kristy, RCT i'w chyfarfod cyntaf

2. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Mrs R Dixon, Mrs S Davies, Owen Shepherd, Mr W Bond a Mrs M Davies, LIC

3 Cofnodion

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Llun 19 Hydref 2015 yn gofnod cywir.

Trafodwyd y materion canlynol.

Eitem 6 – Hysbysodd RD yr aelodau y byddai prosiect corfforaethol i adolygu gwefan BCBC. Byddai rhan o'r prosiect hwn yn edrych ar wahanol ddewisiadau i foderneiddio'r wefan ac i ddefnyddwyr gael eu cyfrif eu hunain.

4 Ymateb i'r ymgynghoriad ar Bolisi Derbyn Drafft 2017/2018 yr ALI

Ymatebodd Ysgol Gyfun Porthcawl i'r 'Polisi Derbyn Drafft' ac roedd yn hapus i fwrw ymlaen â'r newidiadau. Ni chafwyd unrhyw ymateb arall.

5 Cwblhau barn y Fforwm ar Bolisi Derbyn 2017/2018 yr ALI

Cymeradwywyd y Polisi Derbyn drafft ar gyfer 2017/18 gan y Fforwm Derbyn a byddai'n cael ei anfon at Deborah McMillan erbyn 15 Ebrill i'w gymeradwyo. MJ i anfon y polisi terfynol ar gyfer 2017-18 at Lywodraeth Cymru. Nododd RD y byddai'r polisi derbyn ar gyfer 2018/19 yn cael ei adolygu yng nghyfarfod y Fforwm ym mis Hydref.

6 Diweddariad ar adolygu dalgylchoedd

Nododd RD y byddai dalgylchoedd Ysgolion Cynradd Pencoed a Chroesty yn cael eu trafod yn yr 'Adolygiad Strategol' ac y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn llawn i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf. Nododd AK fod pwysau am leoedd ysgol ar hyn o bryd yn sector yr ysgolion ffydd a rhagwelir mwy o bwysau ar leoedd ysgol yn y dyfodol. Byddai data ardal leol yn ddefnyddiol wrth gynllunio ar gyfer lleoedd ysgol.

7 Cofnodion a Chylch Gorchwyl y 'Panel Mynediad Teg'

Mae MT wedi diwygio'r ffurflen Derbyn/Trosglwyddo gyfredol a byddai'n mynd â'r fersiwn ddiwygiedig i'r Panel Mynediad Teg' ym mis Ebrill i'w chymeradwyo. Wedi hyn, byddai'r ffurflen yn cael ei dychwelyd i'r Adran Gyfreithiol am sylwadau/cymeradwyaeth derfynol. Holodd JT a ddylid cyhoeddi trosglwyddiadau canol tymor ysgolion ffydd yn eu polisi derbyn. Awgrymodd AK y gellid trafod hyn yng Nghyfarfod Clwstwr nesaf y Penaethiaid Ysgolion Ffydd.

Nododd CK fod gan RCT nifer uchel o drosglwyddiadau yn B10 a B11. Os yw rhiant eisiau dilyn proses drosglwyddo, anfonir 'Ffurflen Bwriad i Drosglwyddo' at y rhiant i'w llenwi a rhaid cynnal cyfarfod â'r ysgol y mae'r plentyn eisiau ei gadael, yr ysgol y mae'r plentyn eisiau mynd iddi ac unrhyw Asiantaeth arall sy'n ymwneud â'r achos i drafod y mater. MT i drafod hyn yn y 'Panel Mynediad Teg' nesaf (FAP). Nododd CK hefyd pe bai disgybl Blwyddyn 10 yn symud i ALI arall ar ôl gwyliau hanner tymor mis Hydref, a bod y disgybl eisiau aros yn ei ysgol bresennol, byddai'r Awdurdod y lleolir yr ysgol ynddo yn gyfrifol am dalu costau cludiant. Hysbysodd MT aelodau'r fforwm fod y FAP yn cael ei gynnal ddwywaith y tymor a bod y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill. MT i rannu cofnodion y FAP yng nghyfarfod nesaf y fforwm.

Holodd AK a oes dyddiad cau ym Mlwyddyn 11 ar gyfer ystyried ceisiadau disgyblion i drosglwyddo ysgolion. Nododd MT fod yn rhaid ystyried pob trosglwyddiad hyd nes y bydd y disgybl yn gadael addysg statudol, hyd yn oed os na all yr ysgol fodloni dewisiadau cwricwlwm y disgybl.

8 Trefnu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y 'Fforwm Derbyn' yn y dyfodol

MJ i gysylltu â'r Aelodau i drefnu cyfarfod nesaf y 'Fforwm Derbyn' ym mis Hydref.

9 Proffil Asesu Disgyblion sy'n Agored i Niwed (VAP) Owen Shepherd

Nododd RD y gellir cael mynediad cynharach at yr ymyrraeth drwy'r Cynllun Hygyrchedd i Ddisgyblion sy'n Agored i Niwed (VAP) er mwyn cynorthwyo rhieni a phlant sy'n agored i niwed. Holodd JT a oedd hi'n bosibl cynnal prosiect peilot mewn clwstwr o ysgolion cynradd. RD i wahodd Mark Lewis, Rheolwr y Grŵp Gweithio Integredig, i gyfarfod nesaf y fforwm i drafod datblygu modiwl VAP sy'n canolbwyntio ar ysgolion cynradd.

Yn anffodus, ymddiheurodd Owen Shepherd na allai fod yn bresennol a chytunwyd i ohirio'r VAP. Darparwyd crynodeb ac eglurhad o sut y ceir gafael ar y data. Daethpwyd o hyd i ddisgyblion ôl-16 ac mae hyn bellach yn cael ei ehangu i ddod o hyd i ddisgyblion iau.

Hysbysodd MT yr aelodau hefyd fod y FAP yn gweithio ar ddarn arall o waith sy'n ymwneud â gwaharddiadau ac adnabod yn gynnar. Bydd MH yn ymweld ag ysgolion i drafod gwaharddiadau a'r strategaethau presennol a ddefnyddir i atal gwaharddiadau. Byddai MH yn mynd ag 'ysgol' ar dudalen a fydd yn darparu dull adnabod cynnar i gynorthwyo plant ifanc ac atal achosion rhag mynd yn waeth.

10 Rhaglen Ailsefydlu Ffoaduriaid o Syria

Nododd RD fod yr ALI yn helpu i adleoli Ffoaduriaid o Syria sy'n agored i niwed ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae'n awyddus iawn i gymryd rhan yn y rhaglen ailsefydlu. Nododd RD hefyd y gallai unrhyw Ffoaduriaid o Syria sy'n ymgartrefu ym Mhen-y-bont ar Ogwr aros ym Mhen-y-bont ar Ogwr am hyd at 5 mlynedd a chael cymorth ariannol gan y Llywodraeth a byddant dim ond yn dychwelyd i'w gwlad os yw'n ddiogel i wneud hynny. Bydd yr ALI yn cynorthwyo'r teuluoedd o ran tai, cyflogaeth a gosod plant o oedran ysgol mewn addysg briodol o safbwynt rhwystrau crefyddol ac ieithyddol posibl.

11 Unrhyw fater arall

Ni nodwyd unrhyw fater arall.